

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**Cofnodion cyfarfod 10 Hydref 2023 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr****PRESENNOL**

Eifion Williams	Cynog Prys
Llŷr Evans	Emyr Gareth
Eleri Wyn Thomas	Dafydd Huws
Meleri Jones	Nel Huws

1.0**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**

Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan y Cynghorydd Eifion Williams sef y Cadeirydd wedi ymddiswyddiad Iwan Huws. Croesawyd yr aelodau newydd sef y Cynghorydd Elen Gwenllïan a'r Cynghorydd Kevin Parry i'w cyfarfod misol cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynog Prys a Daniel Williams.

Croesawyd hefyd Ms Gwen Thomas at y Cyngor i rhoi cyflwyniad llafar am llwybrau'r gymuned ac i chwestiynnu phwy oedd yn gyfrifol am y llwybrau a sut oedd cynnal a chadw yn digwydd i rai o'r llwybrau a bod rhai eraill yn debyn ychydig llai o gynnal a chadw. Rhoddwyd eglurhad am gategorïau'r llwybrau, trefniadau oedd gan y Cyngor Cymuned yn eu lle ar gyfer cynnal a chadw a bod rhai eraill yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd ac asiant cynnal cefnffyrdd.

Trafodwyd sut i annog defnydd o'r llwybrau yn enwedig y Lon Las, a sut roedd symud ymlaen i annog fwy o ddefnydd ac efallai i geisio am arian i fuddsoddi yn y Lon Las.

Dywedodd Ms Thomas y byddai yn anfon manylion ffynonellau ariannu prosiectau fel llwybrau diogel i'r ysgol, Bws Cerdded a Trên Beicio.

Trafodwyd hefyd y sefyllfa bresennol gyda Llwybr 17 a Llwybr 16. Mae Llwybr 17 wedi derbyn wyneb newydd yn ddiweddar ond oherwydd bod dŵr yn arllwys iddo o aml gyfeiriad ond bellach mae'r dŵr yn aros mewn pwll ar y gwaelod. Mae defnydd mawr ar y llwybr ac oherwydd y gwlybanaeth mae'r Cyngor yn bryderus ynglŷn ag Iechyd a Diogelwch y defnyddwyr. Y Clerc i Anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd.

Trafodwyd hefyd sefyllfa bresennol y Lon Las yn enwedig y manau sydd yn wlyb yn barhaol, eto mae'r Cyngor yn bryderus i ddefnyddwyr y llwybr gan fyddai beicwyr yn llithro ar y manau yma byddem yn derbyn anafiadau difrifol. Mae tyfiant ar ymylon y llwybr bellach yn tarddu ar led y llwybr ac o ganlyniad mae beicio yn cael ei effeithio. Y Clerc i anfon at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd sydd gyda chyfrifoldeb am y Lon Las a chyflwyno cynllun yn dangos yr ardaloedd o dan sylw.


CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

1.1	Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd.	
1.2	Toiledau'r Felinheli, nid oes gwybodaeth wedi dod i lawr ynglŷn â pha wasanaeth sydd yn cael ei roi am gyfraniad o £4000 blynyddol y Cyngor Cymuned ar gyfer y Toiledau.	CLERC
1.3	Syniadau'r cyhoedd o'r stondin y Cyngor yng ngŵyl y Felin - phenderfynwyd llithro'r eitem yma i gyfarfod arbennig i ystyried y syniadau yn unig. Un syniad oedd creu campfa awyr agored, penderfynwyd edrych ar y syniad yma hefyd yn y cyfarfod arbennig. Y Clerc i drefnu cyfarfod.	CLERC DW
1.4	Sul y Cofio – mae cais am wahardd traffig am gyfnod y gwasanaeth ger y Cloc ar y diwrnod wedi ei wneud. Bydd Rheoli Traffig ar y diwrnod yn cael ei oruchwylio can y Cynghorydd Eifion Williams. Gobeithir bydd aelodau o'r Guides yn gwneud rhai o'r darlleniadau.	CLERC DW
1.5	Prisiau bysiau drwy'r pentref cyflwynodd y Cynghorydd Emyr Gareth Adroddiad ar lafar am y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng costau teithio ar fws i Gaernarfon o'r pentref i bentrefi eraill sydd oddeutu'r un pellter o Gaernarfon. Felinheli i Gaernarfon £4.60 dwyffordd Llanrug i Gaernarfon £2.70 dwyffordd Groeslon i Gaernarfon £2.90 dwyffordd Llanberis i Gaernarfon £3.00 dwyffordd Y Gwahaniaeth yn annheg, siwrneiau drud iawn i gymuned y Felinheli os angen mynd pob dydd o'r wythnos - prisiau ddim yn annog defnyddio cludiant cyhoeddus a lleihau pwysau a'r ffyrdd rhag parcio o fewn Gaernarfon. Yn lloegr gwelir cynllun lle mae cap ar ffi teithio sef £2 ar gyfer unrhyw siwrnai Y Clerc i anfon at adain Cludiant Cyhoeddus Cyngor Gwynedd am eglurhad.	CLERC
1.6	Beiciau trydanol yn cael eu defnyddio yn anghyfreithlon o fewn y pentref, mae sawl achos wedi bod lle mae'r ymarferiad yn achosi pryder. Y Clerc am ddod a'r mater i sylw'r Heddlu.	
2.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Dim	
3.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
3.1	Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Medi 2023 gan y Clerc a'u derbyniwyd.	CLERC
3.2	Cyflwynodd y Clerc adroddiad yr Archwiliwr allanol ar archwiliad 2022-2023. Dywedodd hefyd bod y rhybudd wedi ei arddangos am y cyfnod disgwylidig ar wefan y Cyngor. Rhoddwyd sylw i sut mae angen cydnabod gwerth y Neuadd Goffa y flwyddyn nesaf ar gyfer yr archwiliad.	
3.3	Dywedodd y Clerc bod angen ystyried y gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2024-2025 yng nghyfarfod mis Tachwedd. Dylai unrhyw brosiect a chostau cysylltiedig gael ei ystyried pryd hynnu hefyd.	
4.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI	
4.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Medi yn rhai cywir.	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

4.2	Wi-Fi - dim dilyniant wedi bod- y clerc i wneud cyswllt unwaith eto a'r swyddogion perthnasol.	
4.3	Gweler eitem 1.0	CLERC
4.4	Cyfrifiad a chofrestru diffibrilwyr - mae Gwybodaeth wedi dod i law nad yw'r ysgol yn gyfrifol am gadw a chynnal yr offer. Roedd y mater am gael ei godi gan gynrychiolydd y Cyngor ar Lywodraethwyr yr ysgol. Mae manylion cyswllt swyddog gyda Calon Cymru wedi ei gael a gobeithir derbyn gwybodaeth oddi wrtho ynglŷn â chadarnhau bod offer y Felinheli wedi eu cofrestru gyda Gwasanaeth Ambiwylans. Y Clerc i gysylltu.	CLERC ASEDAU
4.5	Llifogydd Afon Heulyn - mae mater yn derbyn sylw gan Gyfoeth Naturiol Cymru pob bythefnos a bydd y corff yn anfon adroddiadau ar y sefyllfa o bryd i'w gilydd. Gobeithir cysylltu â pherchnogion Foxbrush i gynnig ychydig o gefnogaeth iddynt drwy wardeiniaid llifogydd y pentref pan fydd tywydd garw.	CLERC DW
4.6	Datblygiad Penybryn - dim gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn. Y Clerc i wneud ymholiadau pellach a Chyngor Gwynedd unwaith yn rhagor.	CLERC
4.7	Cynllun Rheoli Traffig - manylion cyswllt ar gyfer uned Draffig Heddlu Gogledd Cymru. Gall y Clerc bellach drefnu cyfarfod rhwng yr Heddlu Cyngor Gwynedd ac Asiantaeth Cefnffyrdd i drafod ffordd ymlaen i sicrhau rheolaeth traffig effeithiol i'r pentref pan fo angen gwahardd trafndiaeth oddi ar y ffordd osgoi.	CLERC
5.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
5.1	Rhif Cais / Application No.: C23/0740/20/DT Lleoliad / Location: Crossing Cottage Glan Y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RX Bwriad / Proposal: Ffenestr grom arfaethedig o flaen y lolfâ Proposed Bay Window on front of lounge - DIM GWRTHWYNEBIAD	
5.2	Rhif Cais / Application No.: C23/0772/20/LL Lleoliad / Location: Tir Ger Y Wern, , Y Felinheli, , LL56 4TZ Bwriad / Proposal: Datblygiad anheddol a gwaith isadeiledd cysylltiedig Residential development and associated infrastructure works - SYLWADAU credir nad yw'r datblygwyr wedi derbyn sylwadau'r Cyngor ynglŷn a'r potential i'r datblygiad achosi llifogydd. Hefyd mae potential i'r datblygiad achosi tagfeydd wrth yr Ysgol oherwydd ceir rhieni a gwarchodwyr yn codi a gollwng disgyblion i'r Ysgol. Mae 6 safle parcio i weld wedi eu cynnwys ar y cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno, credir bod y rhain yn ychwanegiad i'r cynlluniau a gyflwynwyd mewn cais cyn-cynllunio. Y Clerc i gael cadarnhad beth yw statws y lleoliadau parcio.	CLERC
6.0	CYLLID, CYFLOGAETH, PHOLISIÂU A GWEFAN	
6.1	Gwaith ar y wefan yn parhau. Bydd angen gweithio tuag at gael polisi bioamrywiaeth yn fuan.	
7.0	ASEDAU	
	Dim i'w adrodd	
8.0	LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

8.1	Gweler eitem 1.0	CLERC
9.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
9.1	Dim adroddiad cyfredol am y Neuadd ond gwnaeth sylwad bod dathliadau priodas y gynhaliwyd yn ddiweddar wedi bod yn lwyddiannus. Gobeithir cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli yn fuan.	DW
10.0	CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL	
	Dim i'w adrodd	
11.0	UNRHYW FATER ARALL	
	Penderfynwyd oherwydd gweithgareddau Nadolig yn mis Rhagfyr byddai y cyfarfod misol yn cael ei gynnal ar y 5ed o Ragfyr.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30 yn y r hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad:
		14/11/23